# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Ll.Jones – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd E.G.Davies - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; Lewis Davies; R.Anthony Dew; Jim Evans; K.Evans; D.R.Hughes; Ff.M.Hughes, K.P.Hughes, R.Ll.Hughes T.Ll.Hughes W.I.Hughes; W.T.Hughes, Aled M Jones; Eric Jones; H.E.Jones; O.Glyn Jones; Raymond Jones; R.Dylan Jones; C.McGregor; Bryan Owen; R.L.Owen; J.V.Owen; G.O. Parry MBE; R.G.Parry,OBE; Eric Roberts, J.Arwel Roberts, P.S.Rogers, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr;<br>Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor.<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Comisiynwyr M.Giannasi a Margaret Foster |
| **APOLOGIES:** | Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies a Gareth Jones; Y Cynghorwyr B.Durkin, C.Ll.Everett, G.O.Jones, Tom Jones, Rhian Medi, G.Winston Roberts,OBE, E.Schofield, H.W.Thomas, Ieuan Williams, J.Penri Williams. |

Draft

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd dim i'w ddatgan.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETH TÂL**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod disgwyl am adroddiad y Comisiwn Ffiniau ddydd Llun ac y byddai'n anfon copi o'r adroddiad ymlaen i'r Aelodau. Y bwriad wedyn oedd trefnu Seminar i'r Aelodau, galw cyfarfod o'r Panel Adolygu Etholiadol fyddai wedyn yn adrodd yn ôl i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ym mis Mehefin.

**3. DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD / AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH**

(a) Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod wedi penodi'r Cynghorydd K.P.Hughes i wasanaethu fel Dirprwy Arweinydd y Cyngor Sir (hyd yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2013).

(b) Yn unol â Rheol 4.4.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith, enwodd Arweinydd y Cyngor y canlynol fel yr aelodau yr oedd wedi'u dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith Cysgodol, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio: -

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Bryan Owen (Arweinydd) | - Deilydd Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd a Thwristiaeth |
| Cynghorydd K.P.Hughes (Dirprwy Arweinydd) | - Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cynghorydd G.O.Parry,MBE | - Deilydd Portffolio ar gyfer Addysg, yr Iaith Gymraeg, Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc |
| Cynghorydd O.Glyn Jones | - Deilydd Portffolio ar gyfer Tai, Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, Rheoli Fflyd, Diogelwch Cymunedol |
| Cynghorydd W.J.Chorlton | - Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid, TG ac Adnoddau Dynol |
| Cynghorydd T.Ll.Hughes | - Deilydd Portffolio ar gyfer Hamdden a'r Amgylchedd |
| Cynghorydd R.G.Parry,OBE | - Deilydd Portffolio ar gyfer Eiddo, Priffyrdd a Rheoli Gwastraff |
| Cynghorydd R.Ll.Hughes | - Deilydd Portffolio Cynllunio |

## 4. CADARNHAU'R PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r Strwythur Pwyllgorau cyfredol (yn cynnwys y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd newydd ei ffurfio) fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 5. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd - adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ar adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn newidiadau diweddar i aelodaeth y Grwpiau.

**PENDERFYNWYD**

**● Bod y Cyngor yn nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol priodol newydd a'r niferoedd y seddi sydd i'w rhannu i bob un o'r Grwpiau dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989, a'r nifer o seddi a roddir trwy ddefod ac arferiad i'r Aelodau Digyswllt;**

**● I gytuno ar gyfanswm y seddi sydd i'w dyrannu i'r Aelodau Digyswllt ac y bydd yr Arweinyddion Grwpiau ac Arweinydd y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad pob un o'r seddi hynny i aelod unigol digyswllt (trwy gytundeb lle bynnag y bo hynny'n bosibl);**

**● Y byddir yn gofyn i Arweinyddion y Grwpiau ac i Arweinydd y Cyngor ddarparu rhestr o enwau cynrychiolwyr eu Grŵp ac Aelodau Digyswllt ar bob Pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor yn barod ar gyfer y cyfarfodydd i ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau ar 18 Mai 2012, ar unwaith yn dilyn y cyfarfod o'r Cyngor heddiw.**

## 6. PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Ystyriwyd – Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor hwn am flwyddyn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd H.Eifion Jones i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2012-13.**

Daeth y cyfarfod i ben am 9:50 a.m.

**CYNGHORYDD R.Ll.JONES**
**CADEIRYDD**

Draft